# CYNLLUN DYSGU A DATBLYGU CORFFORAETHOL 2022-23




**CYSYLLTWCH â NI**
*hyfforddiant@conwy.gov.uk*
*01492 576322 / 6126*

**GWIRIO ARGAELEDD AC ARCHEBU**

*drwy Hunan Wasanaeth iTrent neu drwy eich Swyddo Cyswllt Hyfforddiant Adrannol*

*Cychwynnwch eich chwiliad am gwrs gyda CTD neu CHS ar gyfer digwyddiadau dysgu Iechyd a Diogelwch*

Bydd dyddiadau digwyddiadau dysgu yn cael eu darparu ar-lein yn bennaf,, ac eithrio Iechyd a Diogelwch Hanfodol a fydd yn cymryd lle mewn amgylchedd wyneb yn wyneb yn Ystafell Hyfforddiant, Coed Pella.

Byddwch y derbyn gwahoddiad calendr i gadarnhau yr holl fanylion cyn y digwyddiad dysgu. Bydd hyn yn cynnwys dolen i ymuno â'r amgylchedd ar-lein.

Rydym yn gweithio mewn awyrgylch sy’n newid a sy’n gofyn llawer. Ein gweledigaeth yw i fod yn flaengar o ran rheoli newid a defnyddio hynny i greu cyfleoedd.

### *Conwy – Sir flaengar sy’n creu cyfleoedd*

Ym mhopeth rydym yn ei wneud rydym eisiau bod yn flaengar a chreadigol fel y gallwn sicrhau fod y nifer uchaf posibl o gyfleoedd ar gael yn ein cymunedau yng Nghonwy.




### *Y Ffordd Rydym yn Gweithio - Ein Gwerthoedd*

Mae ein gwerthoedd yn cynrychioli cred ein sefydliad a’r ymddygiad disgwyliedig gan bawb sy’n gweithio i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

**Rydym yn ymfalchïo yn ein gwaith**

**Rydym yn arloesol**

**Rydym yn deg â phawb**

**Rydym yn gweithio fel tîm**

I’ch helpu i gyflawni’r uchod, rydym wedi gosod Cynllun Dysgu a Datblygu Corfforaethol eleni ochr yn ochr â’n Cynllun Corfforaethol a’r deilliannau Dinasyddion.

Gellir canfod y rhain drwy’r eiconau corfforaethol.

## CYNNWYS


**2** - Croeso i Gonwy
**3** - Iechyd, Lles a Chyllid
**4** - Datblygu Sgiliau Gweithio
**5** - Datblygu Sgiliau TG , Sgiliau Yn Ymwneud Â’r Iaith Gymraeg, Gweithdai Llywodraethu
**6** - Datblygu ein Rheolwyr
**7** - Cefnogi ein Rheolwyr
**8** - Cefnogi ein Rheolwyr
**9/10** - Adnoddau Ar-lein
**11/12**- Gweithio’n Ddiogel
**13** - Annog Ffordd o Fyw Iach

## CROESO I GONWY

Mae'r gyfres isod o gyrsiau cyflwyno a modiwlau e-ddysgu yn orfodol ar gyfer pob gweithiwr newydd er mwyn cyflwyno 'Tîm Conwy' iddynt a'u helpu i ddeall ein diwylliant, ein gwerthoedd, y gwasanaethau rydym ni'n eu darparu i'n cymuned a sut i weithio'n ddiogel. Maent wedi eu cynllunio i gyd-fynd â'r Cyflwyniad Sefydlu Adrannol ac mae'n rhaid iddynt gael eu cwblhau cyn diwedd y cyfnod prawf.



### Cyflwyniad Sefydlu Corfforaethol

*Yn cael ei adolygu ar hyn o bryd, yn y cyfamser mae'r holl ddechreuwyr newydd yn derbyn e-bost i'w croesawu gyda gwybodaeth yn ymwneud â chynnwys y Cyflwyniad Sefydlu Corfforaethol.*

### Cyflwyniad Iechyd a Diogelwch Corfforaethol

*Mae'n ofynnol cwblhau a dychwelyd Llyfr Gwaith Codi a Symud yn Gorfforol a holiadur cyn mynychu elfen wyneb yn wyneb o'r Cyflwyniad.*

Mae'r modiwlau e-ddysgu hyn yn cael eu cynnal ar y platfformau dysgu canlynol:

***learning@wales***

***CCBC Learning***

### Modiwl E-ddysgu Gorfodol

- **Trais yn erbyn Merched, Cam-drin Domestig a mathau eraill o Drais Rhywiol**
- **Diogelu Grŵp A**
- **Caethwasiaeth Fodern**
  *I'w adnewyddu bob 3 mlynedd*
- **Y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018**
  *I'w adnewyddu bob 2 mlynedd*
- **Ymwybyddiaeth Cydraddoldeb a Hawliau Dynol**
  *Mae sesiynau grŵp ar gael ar gyfer staff sydd heb fynediad at gyfrifiadur*
- **Cyfarpar Sgrin Arddangos**
  *Ar gyfer pawb sy'n defnyddio Cyfarpar Sgrin Arddangos*
- **Ymwybyddiaeth Diogelwch Seiber**
  *Defnyddwyr TG yn unig, I'w adnewyddu bob 2 mlynedd*
- **Safonau Diogelu Data'r Diwydiant Cardiau Talu (SDD DCT)**
  *Iar gyfer pob aelod o staff sy'n gyfrifol am brosesu taliadau cardiau debyd/credyd*
  *TI'w adnewyddu bob 1 mlynedd*
- **Rhannu Pryderon ar gyfer Rheolwyr**
  *Gorfodol i'r holl reolwyr*

## IECHYD, LLES A CHYLLID

Mae CBSC yn cydnabod y cysylltiadau cryf rhwng iechyd a lles da a’r gallu i fynychu gwaith a chyflawni eich rôl yn effeithiol, gan gydnabod bod gweithwyr yn darparu gwell gwasanaethau i'r cyhoedd pan maent yn teimlo'n dda.

**Mae safle Mewnrwyd Iechyd a Lles Conwy yn Malio yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol ac addysgiadol i’ch helpu i ofalu am eich iechyd a'ch lles eich hun a'ch teulu a'ch ffrindiau.**

**Mae Rhaglen Cymorth i Weithwyr Care First yn cynnig cwnsela, gwybodaeth, cyngor a chymorth ar unrhyw faterion yn ymwneud â gwaith neu faterion personol. Mae’r gwasanaeth ar gael i chi a’ch perthnasau agosaf.**

### MAE EIN HOLL DDIGWYDDIADAU IECHYD, LLES AC ARIANNOL YN CAEL EU DARPARU GAN DDARPARWYR ALLANOL:

**Cefnogi eich Iechyd Meddwl a’ch Lles**

**Deall Pwnc Sensitif Hunanladdiad**

**Datblygu Cadernid Personol**

**Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol**

**Seminar Cyn Ymddeol**

**Seminar Cynllunio Ariannol ar Ganol eich Gyrfa**



***Newydd ar 2022-23***

*Ymwybyddiaeth o’r Menopos ar gyfer Cydweithwyr*

*Ymwybyddiaeth o’r Menopos ar gyfer Rheolwyr Atebol*

*Ymwybyddiaeth o Gyfeillion Dementia*

*Cinio a Dysgu - Adnoddau Menopos Ar-lein*

## DATBLYGU SGILIAU GWEITHIO

Amrywiaeth o ddigwyddiadau ar gael yn cynnwys prosesau gwaith a thestunau personol i gefnogi eich siwrnai ddatblygu.

.



### SESIYNAU ESPRESO AR GYFER STAFF

***joch bach o ddatblygiad!***

*Bydd 3 sesiwn fywiog yn cael eu cyflwyno mewn un diwrnod, gyda'r dewis o fynychu'r dair sesiwn neu dim ond y rhai sydd fwyaf addas i'ch anghenion chi.*



**Gwella'r Gallu i Flaenoriaethu**

**Dylanwadu'n Effeithiol**

**Cynyddu Effeithiolrwydd Personol**

### DARPERIR GAN DDARPARWYR ALLANOL:

**Yr Agenda 'Atal' yng Ngogledd Cymru**

**Y Grefft o Fod yn Wych**

**Ail ganolbwyntio ar eich cwsmer**

**Gwasanaeth Cwsmer**

**Symud eich Hyfforddiant Ar-lein**

*Hyfforddi'r hyfforddwr, sut i ddarparu hyfforddiant ysgogol ar-lein*

### DARPERIR GAN WASANAETHAU MEWNOL:

**Llwyddo yn Eich Cyfweliad**

**Contractau a Chaffael**

**Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb**

**Ymgysylltu â'r Gymuned**

**Nam ar y synhwyrau**

*Mae yna hefyd fodiwl e-ddysgu Ymwybyddiaeth o Fyddardod ar gael i bob aelod o staff ar blatfform learning@wales*

## DATBLYGU SGILIAU TG

### Cyflwyniad i Microsoft Teams

*Argymhellir ar gyfer dechreuwyr newydd ac unrhyw un sydd eisiau gloywi eu gwybodaeth sylfaenol.*

### Cyfryngau Cymdeithasol

*Mae'r digwyddiad yma ar gyfer unrhyw un sydd yn rheoli ac yn creu cynnwys ar gyfer y Cyfryngau Cymdeithasol.*

### DYSGU HUNANGYFEIRIEDIG:

**Defnyddio Microsoft Office**

*i gael gafael ar amrywiaeth o adnoddau e-ddysgu; Word, Excel, PowerPoint, Outlook*

**Cyflwyniad Sylfaenol i Sgiliau TG**

*Mae cyrsiau Oedolion a Chymunedol ar gael drwy Grwp  Llandrillo Menai*

**Datblygu Sgiliau Cyffyrdd-deipio**

*am gwrs ymarferol syml i ddatblygu eich cyflymder, eich cywirdeb a'ch sgiliau.*

**'Snipping Tool'**

Mynediad at ganllawiau

## DATBLYGU SGILIAU YN YMWNEUD Â'R IAITH GYMRAEG

I gael cymorth a chyngor am gyfleoedd dysgu anffurfiol, ewch i'r **dudalen Cymraeg yn y Gweithle ar y Fewnrwyd** neu cysylltwch â cymraeg@conwy.gov.uk / 01492 576081

**Cliciwch yma** i gael gwybodaeth am Gymraeg Clir a Plain English.

**Sicrhewch eich bod yn hysbysu Swyddog Cyswllt Hyfforddiant eich Adran o'ch presenoldeb mewn unrhyw ddigwyddiadau hyfforddi nad ydynt wedi cael eu trefnu fel rhan o'r Cynllun Dysgu a Datblygu Corfforaethol. Mae hyn er mwyn sicrhau y gellir cofnodi eich dysgeidiaeth ar iTrent.**

## GWEITHDAI LLYWODRAETHU

### Egluro'r Broses o Reoli Prosiectau

*Presenoldeb yn hanfodol cyn Prince 2*

### Rheoli Risg

### Proses Gwneud Penderfyniadau Democrataidd Conwy

*Cysylltwch â Sian.Williams@conwy.gov.uk os byddai'ch Gwasanaeth chi'n elwa o drosolwg yn ystod y Cyfarfodydd Rheolwyr Gwasanaeth*

### System Rheoli Perfformiad CAMMS

*(gan gynnwys Cynllunio Gwasanaeth)*

Rydym yn cynnig agweddau amrywiol o hyfforddiant gan gynnwys sut i lywio drwy CAMMS, diweddaru eitemau yr ydych yn gyfrifol amdanynt, a sut mae amcanion a chamau gweithredu unigol, gwasanaeth a Chorfforaethol yn cysylltu â'i gilydd.

**Er mwyn trefnu sesiwn, cysylltwch â:**
camms.administrator@conwy.gov.uk

## DATBLYGU EIN RHEOLWYR

Rydym yn argymell bod yr holl Reolwyr / Arweinwyr Tîm / Goruchwylydd sydd newydd eu penodi yn mynychu'r gweithdai ymwybyddiaeth o bolisi a gynhwysir yma.

### DARPERIR YMWYBYDDIAETH POLISI GAN AD:

***...darperir hefyd drwy gyfrwng y Gymraeg. Trefnir ar gais. Er mwyn mynegi eich diddordeb anfonwch e-bost at: training@conwy.gov.uk***

**Recriwtio Diogel i Reolwyr**
*Canolbwyntio ar Ddiogelu*

**Rheoli'r Broses Galluogrwydd**

**Rheoli Presenoldeb**

**Rheoli'r Broses Ddisgyblu**

**Sut i Reoli Cwynion**

### DARPERIR GAN WASANAETHAU MEWNOL:

**Cyllid ar gyfer Rheolwyr nad ydynt yn Rheolwyr Cyllidol**

***Newydd ar 2022-23***
***7 o Arferion Pobl Sy'n Hynod o Effeithiol***





### DARPERIR GAN DDARPARWYR ALLANOL:

**Cyfarfod Sefydlu i Reolwyr Newydd**

**Beth Os, Arloesi nid Chwyldro**

**Rheoli Iechyd Meddwl a Lles yn y Gweithle**
*Cefnogi cyflwyno ein Polisi Iechyd Meddwl a Lles*

## CEFNOGI EIN RHEOLWYR

Bydd **'Sgwrs Conwy'**, ein Fframwaith Rheoli Perfformiad newydd a fydd yn disodli'r broses PDR, yn cael ei gyflwyno yn fuan ar draws yr Awdurdod.

Er mwyn cefnogi rheolwyr mae gennym y digwyddiadau dysgu canlynol, sesiynau espreso a phlatfform dysgu digidol newydd a fydd yn galluogi rheolwyr i ddatblygu eu sgiliau hyfforddi ar draws ystod o feysydd. Mae'r platfform ar-lein sy'n golygu y gellir cael mynediad ar unrhyw adeg sy'n gyfleus.

Bydd datblygu sgiliau hyfforddi yn darparu offer, technegau a dulliau y gall reolwyr eu defnyddio er mwyn teimlo'n hyderus wrth gynnal sgyrsiau rheolaidd gyda gweithwyr.

### SESIYNAU ESPRESO

***Joch bach o ddatblygiad!***

*Bydd 3 sesiwn fywiog yn cael eu cyflwyno mewn un diwrnod, gyda'r dewis o fynychu'r dair sesiwn neu dim ond y rhai sydd fwyaf addas i'ch anghenion chi.*



**Ysgogi Unigolion i Berfformio'n Uchel**

**Darparu Adborth yn Gadarnhaol**

**Cymell Sgyrsiau Hyfforddi**

**Sgiliau Hyfforddi ar gyfer Rheolwyr**

**Arwain Timau sy'n Gweithio o Bell**

*darperir y ddau ddigwyddiad mewn un diwrnod dros 2 sesiwn 2 awr*

COACHING CULTURE

**Platfform dysgu digidol NEWYDD 'Diwylliant Hyfforddi'**

**Mae'r modiwlau sydd ar gael yn galluogi rheolwyr i ddatblygu eu sgiliau hyfforddi ar draws ystod o feysydd a fydd yn tanategu fframwaith Sgwrs Conwy.**

**Diwylliant Hyfforddi | Platfform**

**Bydd yr holl reolwyr yn derbyn e-bost croeso gyda manylion mewngofnodi.**

## ILM / PEARSONS CYMWYSTERAU

Rydym yn parhau i weithio mewn partneriaeth â Grŵp Llandrillo Menai i ddarparu rhaglenni mewn Rheoli. Bydd y cymwysterau yn cael eu darparu drwy ddull dysgu cymysg yn y gwaith gyda fframwaith prentisiaeth.

Bydd gweithwyr yn cyflawni'r modiwlau drwy ennill ac arddangos sgiliau yn y gweithle a gan ddangos tystiolaeth o'r rhain drwy bortffolio o dystiolaeth. Bydd gweithwyr yn cael cymorth gan Ymgynghorydd Dysgu a fydd yn cyfarfod pob gweithiwr yn eu man gwaith yn ôl y galw. Mae hyn yn galluogi'r gweithwyr i weithio ar gyflymdra sy'n briodol iddynt hwy a'u hamgylchiadau.

Bydd gan Reolwyr Atebol ran ganolog i'w chwarae o ran cefnogi gweithwyr sy'n cychwyn ar yr hyfforddiant, gyda'r disgwyl i'r rheolwr atebol allu helpu canfod cyfleoedd i'r gweithiwr ennill profiad mewn meysydd nad ydynt, o bosib, yn rhan uniongyrchol o'u swydd. Byddant hefyd yn cynnig cymorth hyfforddi ac yn canfod cyfleoedd hyfforddi eraill a allai gefnogi eu dysgu.

## YSGOL HAF ACADEMI WALES

Mae'r Ysgol Haf yn brofiad dysgu preswyl dwys pum diwrnod o hyd, sy'n dod ag arweinwyr a rheolwyr ynghyd i fynd i'r afael â materion allweddol sy'n ymwneud â phwnc arweinyddiaeth penodol.

Mae'r wedi'i chynllunio fel rhaglen 'ymestyn' sy'n rhoi cyfle i chi adolygu a gloywi eich sgiliau, datblygu gwybodaeth newydd a chael cipolwg ar arferion arwain arloesol. Cewch gyfle i archwilio ffyrdd arloesol o 'gyflawni'r busnes', gan dynnu ar gyfoeth o wybodaeth a phrofiad byd-eang.

**I gofrestru eich diddordeb, anfonwch neges e-bost:**

Cheryl.roberts@conwy.gov.uk

Rheolwr Datblygu Sefydliad Corfforaethol

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

## FFORWM RHEOLWYR CONWY

Mae Fforwm Rheolwyr Conwy yn grŵp o swyddogion (drwy wahoddiad) sy'n cyfrannu tuag at arwain a rheoli'r Awdurdod drwy eu Gwasanaethau priodol.

Mae Fforwm y Rheolwyr yn cyfarfod bob chwarter ac mae'n cynnig cyfle iddynt ddysgu, rhannu syniadau a gweithio ar draws ffiniau'r Gwasanaethau. Bydd rhai profiadau datblygu a hyfforddi rheolwyr yn cael eu cyflwyno drwy'r fforwm hwn.

Bydd aelodau Fforwm y Rheolwyr yn cael gwybod am y digwyddiadau hyn pan fydd y manylion wedi'u cadarnhau.

## ADNODDAU AR-LEIN

Dolenni i wefannau sy'n rhannu gwybodaeth ddefnyddiol, arferion gorau ac adnoddau yn ogystal ag offer e-ddysgu y gellir cael mynediad atynt fel rhan o'ch datblygiad parhaus.

Mae Academi Wales wedi ei sefydlu fel canolfan gwasanaeth cyhoeddus Cymru ar gyfer rhagoriaeth mewn arweinyddiaeth. Dilynwch y ddolen isod i wefan Academi Wales lle gallwch ddod o hyd i gyfoeth o wybodaeth, fideos, arferion gorau o ran rheoli a'u sianel e-ddysgu ardderchog - SkillPort.

www.academi wales.gov

Canllawiau defnyddiol ar arferion gorau o ran ymgysylltu â gweithwyr, deddfwriaethau cyflogaeth yn ogystal â chyfleuster e-ddysgu ymarferol.

Mae modiwlau Dysgu Ar-lein rhad ac am ddim ACAS yn adnoddau defnyddiol i unrhyw un sydd eisiau gloywi eu gwybodaeth a gwella eu dulliau o fynd i'r afael â materion cysylltiadau cyflogaeth. Drwy gyfres o 10 cwrs ar-lein, byddwch yn cael cyfle i weithio drwy'r theori, archwilio astudiaethau achos ymarferol a phrofi'ch gwybodaeth drwy ateb cwestiynau rhyngweithiol a chwblhau prawf.

Mae'r pecynnau Dysgu Ar-lein yn ddefnyddiol iawn i reolwyr, goruchwylwyr ac unrhyw un arall sy'n gyfrifol am wella perfformiad busnes neu weithredol.

www.acas.org.uk

Brifysgol Agored, arweinydd byd o ran dysgu agored ac o bell, mae'r holl gyrsiau OpenLearn yn rhad ac am ddim i'w hastudio. Mae'n cynnig bron i 1000 o gyrsiau rhad ac am ddim ar draws 8 maes pwnc gwahanol. Gall unrhyw un ddysgu am ddim ond bydd cofrestru yn rhoi mynediad i chi i broffil dysgu personol a chofnod o gyraeddiadau y gallwch eu hennill wrth astudio.

www.open.edu/openlearn

Rhoi data a gwybodaeth wrth wraidd darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus. Yn cynnig ystod o gyfleoedd hyfforddi a arweinir gan arbenigwyr yn eu maes a'u darparu ar-lein.

Cyrsiau Hyfforddi - Data Cymru

## ADNODDAU AR-LEIN YN PARHAU.....

IDEAS WORTH SPREADING

**Cenhadaeth TED yw lledaenu syniadau; mae TED yn gymuned fyd-eang sy'n croesawu pobl o bob disgyblaeth a diwylliant sy'n ceisio dealltwriaeth ddyfnach o'r byd. Mae TED yn credu'n angerddol yng ngrym syniadau i newid agweddau, bywydau ac, yn y pen draw, y byd. Ar TED.com, rydym yn datblygu swyddfa ganolog o wybodaeth am ddim gan feddylwyr mwyaf ysbrydoledig y byd – a chymuned o eneidiau chwilfrydig i ymgysylltu â'i gilydd a syniadau'r naill a'r llall, a hynny ar-lein ac yn nigwyddiadau TED a TEDx ledled y byd, drwy gydol y flwyddyn.**

**[www.ted.com/talks](www.ted.com/talks)**

LLYSGENNAD TWRISTIAETH conwy
conwy TOURISM AMBASSADOR

**Cynllun Llysgennad darparu cyfle I hyfforddi ar-lein er mwyn gwella eich gwybodaeth am y cynnig twristiaeth ar gyfer Sir Conwy.**

**Cwrs Llysgennad Twristiaeth Conwy – Llysgenhadon Cymru (ambassador.wales)**



Gofal Cymdeithasol Cymru
Social Care Wales

Rhaglen hyfforddi newydd i'w chynnal dros dri diwrnod ar-lein o'r enw "Cyflwyniad i Ofal Cymdeithasol" i unrhyw un yng Nghymru sydd â diddordeb mewn gyrfa ym maes gofal cymdeithasol. Bydd y rhaglen yn darparu trosolwg o weithio ym maes gofal cymdeithasol a bydd yn edrych ar beth yw gofal cymdeithasol a'r rolau amrywiol sydd ar gael yn y sector.

**Rhaglen Hyfforddi**

## ADNODDAU AR-LEIN YN PARHAU.....

Archwilio Cymru
Audit Wales

Bob blwyddyn mae Archwilio Cymru yn cynnal nifer o ddigwyddiadau arfer da.

Mae'r gweithdai yma yn dwyn ynghyd unigolion o ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru i rannu syniadau ar arferion da a materion penodol.

**<u>Cliciwch yma i weld y digwyddiadau sydd ar y gweill</u>**

## GWEITHIO’N DDIOGEL

Mae eich diogelwch , iechyd a lles yn bwysig iawn yng Nghonwy. Mae amrywiaeth o gyrsiau yn cael eu darparu gan Iechyd a Diogelwch Corfforaethol sy’n ymdrechu i sicrhau nad oes unrhyw un yn dod i’r gwaith i gael eu niweidio’n gorfforol nac yn feddyliol gan y gwaith y gofynnir iddynt wneud.




**Cyflwyniad i Iechyd a Diogelwch Corfforaethol**

**Cydlynydd Diogelu Rhag Tân**

**COSHH**

**Defnyddio ac Archwilio Ysgolion/Ysgolion Bach yn Ddiogel**

**Ymchwilio i Ddamweiniau**

**Rheoli Ymddygiad**

**Codi a Symud yn Gorfforol Lefel 2**

**Hyfforddiant Codi a Symud yn Gorfforol i Oruchwylwyr – Gwrthrychau Difywyd**

**(Rhaid i fynychwyr fod wedi cwblhau Codi a Symud yn Gorfforol Lefel 2 cyn archebu lle ar y cwrs hwn)**

**Gweithio’n Ddiogel IOSH**

**Cwrs Rheoli’n Ddiogel IOSH**

**Cwrs Atgoffa Rheoli’n Ddiogel IOSH**

## Hyfforddiant Cymorth Cyntaf

**Cysylltwch**:
First.aidH&S@conwy.gov.uk
01492 575563

**Cymorth Cyntaf mewn Argyfwng (1 Diwrnod)**

**Cwrs Atgoffa Cymorth Cyntaf yn y Gwaith (2 Ddiwrnod)**

**Cymorth Cyntaf yn y Gwaith (3 Diwrnod)**

**Cwrs Gloywi Cymorth Cyntaf Blynyddol (3 awr)**

Dilynwch y ddolen isod i gael gwybodaeth ar bob cwrs, gan gynnwys lleoliad a chost y cwrs

**Hyfforddiant Cymorth Cyntaf Conwy**

## DARPERIR GAN DDARPARWYR ALLANOL:

**Cynllun Ymwybyddiaeth Gyrwyr Bysiau Mini (MiDAS)**

**Cwrs Ymarferol ar Ddiffoddyddion Tân**

**Ymwybyddiaeth o Asbestos (Categori A)**



## Hyfforddiant Argyfyngau Sifil Posibl

Mae dysgu a datblygu amlasiantaeth wedi gwella perthnasau gweithio da ac wedi helpu i arwain ymatebion cydlynus a llwyddiannus i argyfyngau o fewn Gogledd Cymru.

Mae JESIP yn tanategu ac yn darparu strwythur clir ar gyfer gwaith amlasiantaeth ac wedi'i gynnwys gyda phob sesiwn, cwrs hyfforddiant, ymarfer neu ddigwyddiad a gynhelir drwy'r NWRF.


Cysylltwch â training@conwy.gov.uk am fanylion pellach

## ANNOG FFORDD O FYW IACH

Rydym eisiau annog holl weithwyr i ofalu am eu hiechyd a lles fel rhan o'u datblygiad personol.

Gall ymarfer corff helpu'r ymennydd i fod yn barod i ddysgu a'i gwneud yn haws cadw gwybodaeth drwy wella egni, sylw a chymhelliant.

Rydym wedi cynnwys rhai dolenni a gwybodaeth i gefnogi hyn.




*Mae gan raglen YouTube Ffit Conwy amrywiaeth o fideos ar gael; Ioga, Dawns, Aerobeg, Cryfder a Chyflyru ac ati.*

**neu beth am ddod yn aelod!!**

fel gweithiwr CBS Conwy gallwch gofrestru i Aelodaeth Ffit Conwy am £23.10 y mis!!

**Cliciwch yma am fanylion**



## *Cynllun Beicio i'r Gwaith*

Gallwch ddod yn actif, arbed arian a gwella eich iechyd gyda'r Cynllun Beicio i'r Gwaith.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am y cynllun ar ein Mewnrwyd.

**Cliciwch yma**

## *Cerdded yng Nghonwy*

Darganfyddwch y nifer o lwybrau cerdded sydd ar gael yn Sir Conwy a gwerthfawrogwch ei harddwch.

**Cliciwch yma i ddod o hyd i daith gerdded sy'n addas i chi**

## *Conwy Hardys*

Grŵp Rhedeg Cymdeithasol Staff sy'n cymell ei gilydd i fynd allan i ymarfer corff.

**Cliciwch yma am fanylion**

